# Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO): Y broses awdurdodi ar gyfer eu tyfu

Ionawr 2015

## Rhagarweiniad

Er bod gan Lywodraeth Cymru gymhwysedd dros bolisi ar gyfer organeddau a addaswyd yn enetig (GMO) yng Nghymru, mae'r penderfyniadau dros dyfu cnydau GMO yn destun proses awdurdodi a gynhelir gan yr UE. Mae'r broses awdurdodi hon yn cynnwys sawl cam, gan gynnwys asesiad risgiau gwyddonol, ymgynghoriad cyhoeddus a phenderfyniad gan aelod-wladwriaethau i gymeradwyo neu wrthod cynnig y Comisiwn Ewropeaidd ('y Comisiwn') i dyfu cnydau GMO yn yr UE.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru lais uniongyrchol yn y broses hon gan mai Llywodraeth y DU, fel yr aelod-wladwriaeth, sy'n gwneud penderfyniadau ar ran y DU gyfan. Felly, os bydd gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch y cnydau GMO sy'n cael eu hystyried ar gyfer awdurdodiad, rhaid iddi godi'r rhain drwy Lywodraeth y DU.

Mae'r broses hon o awdurdodi wedi bod yn broblem, oherwydd mewn llawer o achosion mae aelod-wladwriaethau wedi methu â chyrraedd mwyafrif cymwysedig ynghylch cynhyrchion GMO, gyda rhaniad clir yn dod i'r amlwg o fewn y Cyngor rhwng y rhai sydd o blaid cnydau GMO a'r rhai sy'n erbyn cnydau GMO. Mae hyn wedi arwain at oedi hir yn y broses o wneud penderfyniadau. Pan fo'r aelod-wladwriaethau'n methu â chyrraedd mwyafrif cymwysedig, mae'r rheolau presennol yn caniatáu i'r Comisiwn wneud penderfyniad i roi awdurdodiad ar lefel yr UE ar yr amod y ffurfir barn gadarnhaol ar ôl cwblhau asesiad risg. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi bod yn amharod i awdurdodi ceisiadau ar ôl diffyg cefnogaeth gan aelod-wladwriaethau.

Mae rhai aelod-wladwriaethau wedi beirniadu'r broses awdurdodi bresennol am fethu â pharchu sybsidiaredd a hawliau aelod-wladwriaethau i wahardd cnydau GMO yn eu tiriogaeth.

Yn 2010, nododd y Comisiwn gynnig ar gyfer Rheoliad gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn. Roedd cynigion 2010 yn ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i aelod-wladwriaethau gyfyngu neu wahardd tyfu cnydau GMO ar ran o'u tiriogaeth neu'r diriogaeth gyfan yn seiliedig ar feini prawf moesegol a moesol y tu allan i'r broses asesu wyddonol gyfredol. Ym mis Rhagfyr 2014 cafwyd cytundeb rhwng y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop ar fanylion terfynol y Rheoliad newydd hwn. Roedd oedi o bron bedair blynedd wedi bod yn y trafodaethau ar y cynigion yn y Cyngor, hyd nes i Lywyddiaeth Gwlad Groeg yr UE drefnu cytundeb cyfaddawd rhwng aelod-wladwriaethau ym mis Mehefin 2014.

Mae'r mater ehangach o sybsidiaredd yn y broses o dyfu cnydau GMO wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth yn Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2015, a gyhoeddwyd ar 16 Rhagfyr. Mae'r Rhaglen Waith yn gwneud ymrwymiad i adolygu'r broses gyfan o ran awdurdodi cnydau GMO yn 2015.

Mae'r Nodyn Ymchwil hwn yn rhoi crynodeb o'r broses awdurdodi cnydau GMO ar hyn o bryd, gan fanylu ar y newidiadau a gymeradwywyd drwy gytundeb ar gynigion 2010. Caiff y Nodyn ei ddiweddaru pan fydd y Comisiwn yn lansio'r adolygiad arfaethedig o'r broses awdurdodi cnydau GMO cyffredinol eleni.

## Y broses awdurdodi bresennol

Os bydd cwmni'n gwneud cais i dyfu cnydau GMO, ac yn cael ei awdurdodi gan yr UE, mae'r penderfyniad hwnnw'n gymwys i holl wledydd yr UE. Gellir cyflwyno ceisiadau o dan **Reoliad (EC) Rhif**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Y Gwasanaeth Ymchwil

**1829/2003**[1] ar fwyd a phorthiant a addaswyd yn enetig neu o dan **Gyfarwyddeb 2001/18/EC**[2] ar gyfer rhyddhau cnydau GMO i'r amgylchedd yn fwriadol.

## Asesiad risg

Yn dilyn cais o dan Reoliad 1829/2003, mae **Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop**[3] yn asesu'r risgiau cysylltiedig i'r amgylchedd, iechyd pobl a diogelwch anifeiliaid. Yn achos tyfu cnydau, mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop yn dirprwyo'r asesiad risg amgylcheddol i aelod-wladwriaeth sy'n anfon ei adroddiad asesu at yr Awdurdod. Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn cynnal ei asesiad o fewn chwe mis i gael y cais ac yn rhoi barn wyddonol a gyhoeddir yng **Nghyfnodolyn Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop**[4]. Bydd yr Awdurdod yn rhoi ei farn i'r Comisiwn a gwledydd yr UE.

Mae'r weithdrefn ychydig yn wahanol o dan Gyfarwyddeb 2001/18. Rhaid i gwmnïau wneud cais i awdurdod cymwys gwlad yr UE lle caiff y cnwd GMO ei farchnata yn y lle cyntaf. Bydd y wlad honno'n llunio adroddiad asesu o fewn 90 diwrnod. Os bydd gwlad arall o fewn yr UE yn gwrthwynebu'r adroddiad asesu yn rhesymol, caiff y cais ei anfon at Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

## Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop yn sicrhau bod y crynodeb o'r cais ar gael i'r cyhoedd, heblaw am agweddau cyfrinachol. Unwaith iddo gael ei gyhoeddi, gall y cyhoedd wneud sylwadau (am 30 diwrnod) ar wefan y Comisiwn[5] ar gyfer ceisiadau o dan Reoliad 1829/2003, ac ar wefan y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd[6] ar gyfer yr adroddiad asesu gan 'brif' wlad yr UE o dan Gyfarwyddeb 2001/18.

[1] Rheoliad (EC) **Rhif 1829/2003** [fel ar 14 Chwefror 2014]
[2] Cyfarwyddeb **2001/18/EC** [fel ar 14 Chwefror 2014]
[3] **Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop** [fel ar 14 Chwefror 2014]
[4] **Cyfnodolyn Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop** [fel ar 14 Chwefror 2014]
[5] Y Comisiwn Ewropeaidd **Public consultations on GM food & feed authorisation applications under Regulation 1829/2003** [fel ar 19 Chwefror 2014]
[6] Y Ganolfan Ymchwil ar y Cyd **Deliberate Release and Placing on the EU Market of GMOs - GMO Register** [fel ar 14 Chwefror 2014]

## Y Penderfyniad Terfynol

O fewn tri mis o gael barn Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, dylai'r Comisiwn gymeradwyo neu wrthod yr awdurdodiad. Mae cynrychiolwyr aelod-wladwriaethau'n cymeradwyo cynnig y Comisiwn drwy fwyafrif cymwysedig ar gyfer:

– Y **Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid**[7] os cyflwynir y cais o dan Reoliad 1829/2003;

– Y **Pwyllgor Rheoleiddio o dan Gyfarwyddeb 2001/18/EC** os cyflwynir y cais o dan Gyfarwyddeb 2001/18.

Caiff y cynnig ei gymeradwyo os bydd y naill Bwyllgor neu'r llall yn ei gymeradwyo. Os nad oes barn, gall y Comisiwn alw **Pwyllgor Apêl** lle gall gwledydd yr UE gymeradwyo/gwrthod y cynnig. Os na fydd y Pwyllgor Apêl yn gwneud penderfyniad, gall y Comisiwn gymeradwyo'r cynnig.[8] Mae awdurdodiadau'n ddilys am ddeng mlynedd a gellir eu hadnewyddu.

## Y 'cymal diogelu'

Mae **Erthygl 23 o Gyfarwyddeb 2001/18**, y 'cymal diogelu', yn caniatáu i aelod-wladwriaethau gyfyngu neu wahardd tyfu neu ddefnyddio cynnyrch GMO awdurdodedig os oes ganddynt dystiolaeth wyddonol **newydd neu ychwanegol** sy'n profi bod y cynnyrch yn beryglus i'r **amgylchedd a/neu iechyd pobl** o fewn eu tiriogaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i Reoliad 1829/2003. Er mwyn profi bod digon o dystiolaeth, bydd yn rhaid i'r aelod-wladwriaeth gynnal adolygiad o'r asesiad risg amgylcheddol gwreiddiol a gwblhawyd pan awdurdodwyd y cnwd GMO yn y lle cyntaf. Er mwyn asesu teilyngdod gwyddonol yr honiadau, gall y Comisiwn gyflwyno tystiolaeth yr aelod-wladwriaeth i Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop a fydd yn rhoi barn ar ddilysrwydd y dystiolaeth newydd. Ar ôl cael

[7] Y Comisiwn Ewropeaidd **Y Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid** [fel ar 14 Chwefror 2014]
[8] Penderfyniad y Cyngor ar 28 Mehefin 1999 yn gosod y gweithdrefnau ar gyfer yr ymarfer o weithredu pwerau a gyflwynir i'r Comisiwn (**OJ L 184, 17.7.1999, tudalen 23**)

barn wyddonol gan yr Awdurdod, bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynigion drafft i'r Pwyllgor Sefydlog ar y Gadwyn Fwyd ac Iechyd Anifeiliaid yn galw ar i'r Pwyllgor naill ai gytuno â gwaharddiad yr aelod-wladwriaeth neu ei ddiddymu. Bydd y Pwyllgor yn pleidleisio i gymeradwyo neu wrthod cynigion y Comisiwn. Os na all y Pwyllgor ddod i benderfyniad, anfonir y cynigion at **Gyngor y Gweinidogion** (y Cyngor) er mwyn iddo benderfynu arnynt. Os na fydd y Cyngor yn ymateb i'r cynigion o fewn amserlen benodol, bydd y Comisiwn yn cymeradwyo'r cynnig.[9]

Yn anaml y mae mesurau diogelu hyd yma wedi cael eu cefnogi gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop. Mae Ffrainc, yr Almaen, Awstria, Bwlgaria, Gwlad Groeg, Hwngari, Lwcsembwrg, Gwlad Pwyl a'r Eidal wedi ceisio gwahardd india-corn MON810 yn eu tiriogaethau, gyda llawer o dystiolaeth yr aelod-wladwriaethau ar gyfer y gwaharddiad eisoes wedi'i hystyried yn annilys gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

## India-corn 1507

Ar 26 Medi 2013, cyflwynodd **Llys Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd** ddyfarniad a oedd yn nodi bod y Comisiwn wedi methu â gweithredu ar gais gan **Pioneer** ('DuPont Pioneer' erbyn hyn) i awdurdodi tyfu **india-corn 1507**[10] a gyflwynwyd yn 2001 o dan Gyfarwyddeb 2001/18.

Cyflwynodd Pioneer yr achos cyntaf yn erbyn y Comisiwn yn 2007 am fethu â chyflwyno penderfyniad awdurdodi i bleidleisio arno i'r Pwyllgor Rheoleiddio. Daeth y Llys â'r achos hwn i ben ar ôl i'r Comisiwn gyflwyno'r cynnig i'r Pwyllgor Rheoleiddio ym mis Chwefror 2009, ar gyfer penderfyniad awdurdodi drafft. Fodd bynnag, methodd y Pwyllgor â rhoi barn. Yn 2010, cyflwynodd Pioneer ail achos yn erbyn y Comisiwn am beidio â chyfeirio cynnig i'w awdurdodi i'r Cyngor am na chafwyd barn gan y Pwyllgor Rheoleiddio, yn unol â'r weithdrefn bwyllgoreg a oedd yn gymwys ar y pryd.[11]

Yn unol â'r dyfarniad hwn, cyfeiriodd y Comisiwn y cais i dyfu india-corn 1507 at y Cyngor lle mai'r Gweinidogion oedd yn gyfrifol am roi safbwynt ar y cais drwy fwyafrif cymwysedig. Roedd Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop eisoes wedi cyflwyno barn ar y cais yn 2005, 2006, 2008, 2011 a 2012.[12] Ar 11 Chwefror 2014, ar ôl trafodaeth (ar ôl i'r gwledydd gefnogi cynnig gan Ffrainc i annog trafodaethau ffurfiol yn hytrach na 'gweithdrefn ysgrifenedig'[13]) cafwyd pleidlais wedi'i rhannu ymhlith yr aelod-wladwriaethau. Mae bellach yn rhwymedigaeth ar y Comisiwn i gymeradwyo tyfu india-corn 1507 (y cnwd biotechnoleg arwyddocaol cyntaf mewn dros ddegawd a'r ail gnwd india-corn GM yn yr UE) gan nad oedd gan y 19 o wledydd a wrthododd y cynnig i dyfu india-corn 1507 y mwyafrif gofynnol i rwystro'r cynnig.[14]

Ar ôl pleidlais y Cyngor, dywedodd Rheolwr Cyfathrebu DuPont Pioneer yn Ewrop:

> We are now confident that the European Commission, based on the seven positive safety opinions published by the EFSA, will adopt the decision for approval again as required under E.U. law. 1507 maize meets all EU regulatory requirements and should be approved for cultivation without further delay...The European Union has a legal obligation to itself, to its farmers and scientists and to its trade partners to follow the revised EU biotech legislation...[15]

Mae Sbaen, yr unig wlad sy'n debygol o dyfu india-corn 1507 yn eang, wedi croesawu'r awdurdodiad ac

[9] Nodir y weithdrefn gwneud penderfyniadau yn **Erthygl 5 o Benderfyniad 1995/486/EC** [fel ar 19 Chwefror 2014]

[10] Datblygwyd india-corn 1507 a addaswyd yn enetig (India-corn Bt) i gyflwyno ymwrthedd i larfâu gwyfynod niweidiol penodol ar gyfer india-corn, fel tyllbryf india-corn Ewrop. Ar hyn o bryd mae wedi'i awdurdodi yn yr UE ar gyfer bwyd a phorthiant, ond mae'r awdurdodiad ar gyfer ei dyfu yn mynd rhagddo.

[11] Penderfyniad y Cyngor ar 28 Mehefin 1999 yn gosod y gweithdrefnau ar gyfer yr ymarfer o weithredu pwerau a gyflwynir i'r Comisiwn (**OJ L 184, 17.7.1999, t. 23**)

[12] Europa, **GMO: Commission asks Council to agree on its proposal to grant Member States more subsidiarity on cultivation** 6 Tachwedd 2013 [fel ar 17 Chwefror 2014]

[13] AGRAFACTS Rhif 02/14 10 Ionawr 2014

[14] AGRAFACTS Rhif 11/14 12 Chwefror 2014

[15] Truth about trade and technology, **DuPont Pioneer Seed Corn Clears EU Regulatory Hurdles, But...**20 Chwefror 2014 [fel ar 17 Mawrth 2014]

wedi annog yr UE i ganiatáu i ffermwyr ddefnyddio'r dechnoleg a all ddatrys problemau go iawn a lleihau'r defnydd o bryfladdwyr. [16]

Fodd bynnag, mae'r broses ddeddfwriaethol sy'n ymwneud ag awdurdodi india-corn 1507 wedi'i beirniadu gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol a dywedodd Marco Contiero (Cyfarwyddwr Polisi Amaethyddol yr UE Greenpeace):

> The Commission cannot ignore the scientific, political and legal concerns voiced by a large majority of countries, by two thirds of the European Parliament and supported by most EU citizens. [17]

Nid oedd Aelodau o Senedd Ewrop yn cefnogi'r cynnig, gan ddweud y gallai beryglu glöynnod byw a gwyfynod, ac roeddent yn annog y Comisiwn i beidio â chymeradwyo nac adnewyddu cnydau GM hyd nes y caiff y dulliau asesu risg eu gwella. [18]

Ar 12 Chwefror 2014 bygythiodd grŵp Gwyrdd Senedd Ewrop gyflwyno cynnig o gerydd yn erbyn y Comisiwn, ar ôl iddo gymeradwyo'r awdurdodiad o india-corn 1507.

Mae'r cymhlethdodau sy'n ymwneud ag awdurdodi india-corn 1507, yn ogystal â'r bleidlais sydd wedi'i rhannu ymhlith yr aelod-wladwriaethau, wedi arwain at alw am adfer y cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn dair blynedd yn ôl (2010) [19].

[16] AGRAFACTS Rhif 11/14 12 Chwefror 2014
[17] *ibid*
[18] *ibid* ac AGRAFACTS Rhif 04/14 17 Ionawr 2014
[19] Y Comisiwn Ewropeaidd **Proposal for a regulation amending Directive 2001/18/EC as regards the possibility for the Member States to restrict or prohibit the cultivation of GMOs in their territory** 13 Gorffennaf 2010, COM(2010) 375 terfynol [fel ar 19 Chwefror 2014]

## Newidiadau mewn deddfwriaeth

### Y Cynnig ar gyfer Rheoliad a fydd yn diwygio Cyfarwyddeb 2001/18/EC

Ym mis Gorffennaf 2010 cyhoeddodd y Comisiwn gynnig drafft ar gyfer **Rheoliad sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2001/18** (COM(2010)375).[20] Nod y diwygiad hwn oedd rhoi sail gyfreithiol i aelod-wladwriaethau benderfynu ar dyfu cnydau GMO am resymau sy'n wahanol i'r rheini sy'n seiliedig ar asesiad gwyddonol o risgiau amgylcheddol a risgiau o ran iechyd pobl, fel meini prawf moesegol a moesol, gan roi mwy o hyblygrwydd i aelod-wladwriaethau. Mae'r Comisiwn yn cynnig cynnwys erthygl newydd (26b), a fyddai'n berthnasol i bob cnwd GMO a awdurdodir i'w dyfu yn yr UE, naill ai o dan Gyfarwyddeb 2001/18 neu o dan Reoliad 1829/2003. Cynigiwyd y gallai aelod-wladwriaethau gyfyngu neu wahardd tyfu cnydau GMO mewn rhan o'u tiriogaeth neu yn y diriogaeth gyfan heb orfod defnyddio'r mesurau diogelu (er y gellir parhau i fynegi pryderon o ran iechyd a'r amgylchedd o dan y cymal diogelu presennol). Ni fyddai angen i'r Comisiwn awdurdodi penderfyniadau, ond byddai angen i aelod-wladwriaethau roi gwybod i aelod-wladwriaethau eraill a'r Comisiwn fis cyn cymeradwyo eu mesurau (yn y cynnig gwreiddiol). Byddai'n rhaid i aelod-wladwriaethau hefyd barchu egwyddorion cyffredinol y Cytuniadau a'r Farchnad Sengl, a bod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol yr UE.

Roedd y cynigion yn destun y weithdrefn gydbenderfynu lle mae'n rhaid i'r Cyngor a Senedd Ewrop gytuno arnynt. Cyrhaeddwyd cytundeb ar y cynigion ym mis Rhagfyr 2014 ar ôl blynyddoedd o drafodaethau ac oedi.

[20] Y Comisiwn Ewropeaidd **Proposal for a regulation amending Directive 2001/18/EC as regards the possibility for the Member States to restrict or prohibit the cultivation of GMOs in their territory** 13 Gorffennaf 2010, COM(2010) 375 terfynol [fel ar 19 Chwefror 2014]

## Y Cyngor

Cafodd y rheoliad arfaethedig ei wrthwynebu yn y lle cyntaf gan nifer o aelod-wladwriaethau yn ystod trafodaethau ym mis Mawrth 2012, lle cafodd gwahanol bryderon cyfreithiol eu codi.[21] Arweiniodd hyn at roi'r gorau i'r trafodaethau ac ni chawsant eu cynnal eto hyd nes fis Mawrth 2014 yn dilyn materion a godwyd yn sgil awdurdodi india-corn 1507. Yng nghyfarfod Cyngor Gweinidogion yr Amgylchedd ar 3 Mawrth 2014, symudodd y DU o'r lleiafrif gwrthod blaenorol a mynegodd nifer o aelod-wladwriaethau gefnogaeth i'r testun cyfaddawd. Arweiniodd hyn at bleidlais a chymeradwyo'r testun cyfaddawd yn ffurfiol yng Nghyngor yr Amgylchedd ar 12 Mehefin 2014.

Roedd y testun cyfaddawd yn cynnwys nifer o ddiwygiadau arfaethedig i'r cynnig gwreiddiol.[22] Byddai aelod-wladwriaethau'n gallu gofyn bod y Comisiwn yn rhoi gwybod i gwmnïau biotechnoleg, naill ai'n ystod y broses awdurdodi neu ar ôl rhoi awdurdodiad, am gais aelod-wladwriaeth i ddiwygio cwmpas daearyddol yr awdurdodiad. Mewn geiriau eraill, yn hytrach nag awdurdodiad sy'n gymwys i'r UE cyfan, byddai'n eithrio rhai tiriogaethau aelod-wladwriaethau yn ôl y gofyn neu fel y cytunwyd arno.

Yn ôl y testun cyfaddawd, pe byddai'r cwmni biotechnoleg yn gwrthod diwygio ei awdurdodiad, yna byddai'r aelod-wladwriaeth yn gallu rhoi gwybod i'r Comisiwn o'i fwriad i wahardd tyfu'r cnwd GMO hwnnw ar ran o'i diriogaeth neu'r diriogaeth gyfan, am nifer o resymau ar wahân i'r rheini sy'n rhan o broses asesu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ar hyn o bryd. Roedd y rhain yn cynnwys rhesymau economaidd-gymdeithasol, rhesymau polisi amaethyddol, rhesymau cynllunio gwlad a thref, rhesymau o ran defnydd tir neu ar sail amgylcheddol nad ydynt eisoes wedi'i hystyried fel rhan o broses Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.

At hynny, o dan y testun cyfaddawd, gallai aelod-wladwriaethau fod wedi diddymu unrhyw fesurau sydd ar waith ar eu tiriogaeth a gofyn am gael diwygio'r awdurdodiad i gynnwys unrhyw diriogaethau a oedd wedi'u heithrio o'r blaen.

## Senedd Ewrop

Cymeradwyodd Senedd Ewrop safbwynt cyd-drafod ar gynigion gwreiddiol y Comisiwn ym mis Gorffennaf 2011. Roedd am ddiwygio cynigion y Comisiwn mewn sawl ffordd. Roedd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gymryd y mesurau priodol i osgoi presenoldeb anfwriadol cnydau GMO mewn cynhyrchion eraill yn eu tiriogaeth ac mewn ardaloedd ar y ffiniau ag aelod-wladwriaethau cyfagos. Cafodd diwygiadau hefyd eu cynnwys a fyddai'n caniatáu i waharddiadau gael eu cyflwyno ar sail pryderon amgylchedd lleol, rhywbeth a wrthwynebwyd gan lawer yn y Cyngor.[23] At hynny, roedd Senedd Ewrop am gael sicrhad na ddylai cyfyngiadau neu waharddiadau ar dyfu cnydau GMO gan aelod-wladwriaethau atal gwaith ymchwil biotechnoleg rhag cael ei gynnal, ar yr amod y cydymffurfir â'r holl fesurau diogelwch angenrheidiol.

Yn yr ail rownd o sgyrsiau tairochrog ar 25 Tachwedd 2014, anghytunodd Senedd Ewrop â'r Cyngor drwy fod eisiau ei gwneud yn wirfoddol yn hytrach nag yn orfodol bod gwledydd sy'n bwriadu gwahardd cnydau GMO i ddechrau'n trafod eithriad gyda chwmnïau biotechnoleg i gyfyngu ar gwmpas eu ceisiadau gwerthiant. Honnodd y Cyngor y byddai trafodaethau o'r fath yn sicrhau y byddai gwledydd nad ydynt yn caniatáu tyfu cnydau GMO yn llai agored i heriau cyfreithiol ac y byddai'n lleihau'r angen i gymeradwyo gwaharddiadau a'u cyfiawnhau. Fodd bynnag, roedd Aelodau o Senedd Ewrop yn pryderu y gallai'r newid gynyddu dylanwad cwmnïau biotechnoleg fel Syngenta neu Monsanto.[24]

---

[21] AGRAFACTS Rhif 11/14 12 Chwefror 2014
[22] Y Comisiwn Ewropeaidd, ***Proposal for Regulation amending Directive 2001/18/EC as regards the possibility for Member States to restrict or prohibit the cultivation of GMOs in their territory: Revised Compromise proposal in view of Council Political Agreement (darlleniad cyntaf),*** 23 Mai 2014 [fel ar 1 Gorffennaf, 2014]

[23] AGRAFACTS Rhif 87-14 26 Tachwedd 2014
[24] AGRAFACTS Rhif 87-14 26 Tachwedd 2014

## Canlyniad y trafodaethau

Ar 3-4 Rhagfyr 2014 daeth y trafodaethau i ben pan ddaethpwyd i gyfaddawd rhwng y Cyngor a Senedd Ewrop. Cymeradwywyd y cytundeb anffurfiol gan Bwyllgor Cynrychiolwyr Parhaol y Cyngor (COREPER) ar 10 Rhagfyr 2014.

Cytunwyd y gall gwledydd wahardd cnydau GM yn seiliedig ar restr gymeradwy o resymau sy'n cynnwys cynllunio gwlad a thref, defnydd tir, effeithiau economaidd-gymdeithasol, cyd-fodoli a pholisi cyhoeddus.[25] Bydd yr amcanion polisi amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer cyfiawnhau gwaharddiad yn berthnasol i effeithiau amgylcheddol ar wahân i'r risgiau i iechyd a'r amgylchedd a aseswyd yn ystod asesiad risg gwyddonol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop.  Nid oedd y cytundeb newydd yn cynnwys galwadau Aelodau Senedd Ewrop am restr ehangach o resymau, gan gynnwys rhesymau amgylcheddol penodol. Cytunwyd y byddai'r gwledydd yn cael y dewis a ydynt yn trafod trefniadau eithrio gyda chwmnïau biotechnoleg i ddechrau neu'n symud ymlaen ar unwaith gyda gwaharddiadau. Mae'r cytundeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol y dylai aelod-wladwriaethau sicrhau nad yw cnydau GMO yn halogi cynhyrchion eraill, a dylid talu sylw i atal halogi trawsffiniol gyda gwledydd cyfagos lle mae cnydau GMO wedi'u gwahardd.

Pleidleisiodd y Cyngor a Senedd Ewrop ar y cytundeb terfynol yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Ionawr 2015. Disgwylir i'r cytundeb ar y Rheoliad ddod i rym yng ngwanwyn 2015 a bydd y Rheoliad a gymeradwyir yn diwygio Cyfarwyddeb 2001/18.

[25] Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, ***EU countries get more latitude on the cultivation of GMOs***, 10 Rhagfyr 2014 [fel ar 17 Rhagfyr, 2014]

## Ymatebion

Dywedodd Matthias Groote ASE, un o siaradwyr S&D [26]ar iechyd a'r hinsawdd:

> This report includes most of S&D's priorities, such as the choice of the environmental legal basis, a more extensive list of reasons for banning, the need to have binding measures on coexistence in order to avoid the contamination of traditional cultivations by GMO cultivations, reinforcement of the risk evaluation method by the European Food Safety Evaluation (EFSA) and far greater transparency in the banning procedure.[27]

Yn ôl Greenpeace, mae'r testun y cytunwyd arno yn wan yn gyfreithiol.[28] Wrth sôn am ganlyniad y bleidlais, dywedodd Marco Contiero, cyfarwyddwr polisi amaethyddiaeth Greenpeace yr UE:

> Environment ministers say they want to give countries the right to ban GM crop cultivation on their territory, but the text they have agreed does not give governments a legally solid right. It ties their hands by not allowing to use evidence of environmental harm to ban GM cultivation. This leaves those countries that want to say 'no' to GM crops exposed to legal attacks by the biotech industry.[29]

Dadleua cwmnïau biotechnoleg y gallai'r trefniadau eithrio danseilio hygrededd Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, gonestrwydd y farchnad fewnol a

[26] Grŵp Cynghrair Blaengar y Sosialwyr a'r Democratiaid yn Senedd Ewrop
[27] Farming UK *EU countries granted flexibility to ban GMO crops*, 12 Tachwedd 2014 [fel ar 18 Tachwedd 2014]
[28] Uned Greenpeace yr UE, *Member states agree on right to ban GMO cultivation at national level*, 12 Mehefin 2014 [fel ar 18 Rhagfyr 2014]
[29] Uned Greenpeace yr UE, *New EU law grants countries right to ban GM crops but leaves them exposed to industry attacks*, 4 Rhagfyr 2014 [fel ar 18 Rhagfyr 2014]

phenderfyniadau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth.[30]

Bwriad y cynlluniau yw cyflymu'r broses o gymeradwyo cnydau GM newydd ar lefel yr UE gan roi'r dewis i wledydd sydd o blaid tyfu cnydau GMO, fel Sbaen a Phortiwgal, dyfu mathau newydd. Fodd bynnag, yn ôl Agra Facts[31], mae llawer o sylwebyddion yn parhau'n amheus ynghylch a fydd y cytundeb yn newid y gyfradd o gymeradwyaethau.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO): Y broses awdurdodi ar gyfer eu tyfu**, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@Cynulliad.Cymru**)

**Gweler hefyd:**

– Y Comisiwn Ewropeaidd **Cwestiynau ac Atebion y Comisiwn Ewropeaidd ar bolisïau'r UE ynghylch tyfu a mewnforio cnydau GMO** 6 Tachwedd 2013

Darllenwch ein **holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/research**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid anfon y rhain i'r: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost i **research.service@cynulliad.cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 14/3318**

[31] Agra Facts Rhif 90-14